

**Fforwm Cymunedau Ffydd**  
**Cofnodion Cyfarfod 5 Tachwedd 2018**  
**Ystafell Ddigwyddiadau, Parc Cathays**

**Presennol:**

Carwyn Jones AC, Y Prif Weinidog	Cadeirydd
John Davies	Archesgob Cymru (Yr Eglwys yng Nghymru)
Philip Manghan	yn cynrychioli Archesgob Caerdydd (Yr Eglwys Gatholig)
Nordzin Pamo	Cyngor Bwdaidd Cymru
Gethin Rhys	Cytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru)
Lawrence Kahn	Cyngor Cynrychioli Iddewon De Cymru
Melody Odey	Cyngor Cynrychioli Iddewon De Cymru
Joga Singh	Cyngor Sikhiaid Cymru
Naran Patel	Cyngor Hindwiaid Cymru
Radhika Kadaba	Cyngor Hindwiaid Cymru
Rheinallt Thomas	Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru
Sam Pritchard	Cynghrair Efengylaidd Cymru

**Ymddiheuriadau:**

Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip	Dirprwy Gadeirydd
Viv Bartlett	Cyngor Bahá'í Cymru
Christine Abbas	Cyngor Bahá'í Cymru
Taikya David Morgan	Cyngor Bwdaidd Cymru
Aled Edwards	Cytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru)
Gurmit Singh Randhawa	Cyngor Sikhiaid Cymru
Ahmed Darwish	Cyngor Mwslimiaid Cymru
Saleem Kidwai	Cyngor Mwslimiaid Cymru

**Cyflwyniad:**

Dr Simon Hoffman, Prifysgol Abertawe

**Cyflwyniadau gan Swyddogion Llywodraeth Cymru:**

John Pugsley, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus  
Manon Jones, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

**Swyddogion Llywodraeth Cymru:**

Paul Dear, Pennaeth y Tîm Cydraddoldeb  
Emma Small, Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant  
Andrea Adams, Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant

**Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawodd y Prif Weinidog bawb i ail gyfarfod 2018. Estynnodd groeso i aelodau newydd hefyd: Lawrence Kahn a Melody Odey o Gyngor Iddewon De Cymru, Rheinallt Thomas, Cymedrolwr ar gyfer Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru, Radhika Kadaba o Gyngor Hindwiaid Cymru a Sam Pritchard o Gynghrair Efengylaidd Cymru.

## **Cofnodion y Cyfarfod a phwyntiau gweithredu 16 Ebrill**

Roedd cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r pwyntiau gweithredu wedi'u hanfon at yr aelodau cyn y cyfarfod. Cytunwyd bod y rhain yn gywir.

### **Datganiad agoriadol y Prif Weinidog**

Mynegodd y Prif Weinidog ei dristwch am y rhai a ddiodeffodd a'r teuluoedd a gafodd eu heffeithio gan y weithred o gasineb a gwrth-semitiaeth a arweiniodd at ladd unarddeg o bobl yn synagog Tree of Life, Pittsburgh, UDA ar 27 Hydref, ac anafu eraill yn ogystal. Mynegodd y Fforwm tristwch am yr holl bobl a oedd wedi dioddef yn sgil y digwyddiad hwn a chymunedau Iddewig o amgylch y byd.

Atgoffodd y Prif Weinidog y Fforwm ei fod wedi cyhoeddi bod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu diffiniad gweithredol Cynghair Rhyngwladol Cofio'r Holocaust (IHRA) o wrth-semitiaeth ar 16 Mai 2017. Cadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru, wrth fabwysiadu'r diffiniad hwn, wedi cynnwys yr unarddeg enghraifft a oedd yn gysylltiedig â'r diffiniad, o'r cychwyn, yn llawn ac yn ddiamod.

Cyhoeddwyd ail ddatganiad ysgrifenedig ar 17 Hydref 2018 i egluro safbwynt Llywodraeth Cymru ar ddiffiniad IHRA ac i roi diweddariad ar y camau gweithredu a gymerwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol i ddangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â gwrth-semitiaeth.

Dywedodd y Prif Weinidog ei fod am ddatgan yn glir na fydd Llywodraeth Cymru yn goddef gwrth-semitiaeth ac y byddai'n gwneud popeth o fewn ei allu i'w ddileu o bob cymuned yng Nghymru.

### **Materion yn Codi**

Derbyniodd aelodau'r Fforwm gopi o adroddiad llawn y Tîm Cymorth Ieuencid Ethnig o Gynhadledd Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan a gynhaliwyd ar 20 Mawrth.

### **Eitem 1 – Diweddariad: Addysg Grefyddol yn y Cwricwlwm Manon Jones a John Pugsley, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus**

Yn y cyfarfod diwethaf gofynnodd Arweinydd y Tîm am gael dychwelyd i drafod y mater hwn yn y cyfarfod hwn. Mae swyddogion sy'n gyfrifol am yr elfen addysg grefyddol ym maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau wedi gwahodd aelodau'r Fforwm i gyfarfod â nhw ar 16 Tachwedd, i dderbyn eu sylwadau ar y broses hyd yn hyn. Dywedodd y Prif Weinidog fod safbwyntiau aelodau'r Fforwm yn bwysig i helpu gyda'r gwaith datblygu parhaus ar y mater hwn, yn ogystal â'r polisi ehangach ar gyfer Addysg Grefyddol.

Rhoddodd John amlinelliad byr am gefndir y gwaith y mae ef a Manon yn ei ddatblygu:

Cyhoeddwyd adolygiad annibynnol yr Athro Donaldson o'r cwricwlwm a threfniadau asesu yng Nghymru ym mis Chwefror 2015 a derbyniwyd y 68 argymhelliad yn llawn.

Yna, sefydlwyd rhwydwaith arloesi o ysgolion sy'n ganolog i ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Mae'r ysgolion hyn wedi'u lleoli ledled Cymru, yn cynnwys lleoliadau gwledig a threfol; dwyieithog, cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg; cynradd ac uwchradd; ysgolion arbennig; ysgolion â chymeriad crefyddol; ac ysgolion o faint amrywiol.

Mae'r ysgolion arloesi hyn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol fel y consortia rhanbarthol, Estyn, y sector addysg bellach, arbenigwyr cynllunio'r cwricwlwm a phynciau penodol i ddatblygu'r cwricwlwm newydd yng Nghymru.

Mae pedwar diben yn ganolog i'r cwricwlwm newydd, i gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu fel:

- dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Y pedwar diben yw'r man cychwyn ar gyfer pob penderfyniad ar gynllun y cwricwlwm newydd i Gymru. Bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei drefnu yn ôl 6 Maes Dysgu a Phrofiad: Celfyddydau Mynegiannol; Iechyd a Lles; Dyniaethau; Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Mathemateg a Rhifedd; Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

### **Y dull 'Beth sy'n Bwysig' o gynllunio ein cwricwlwm**

- Wrth ystyried sut i drefnu'r cwricwlwm newydd i gefnogi'r pedwar diben, a defnyddio cyngor arbenigwyr rhyngwladol ar gynllunio cwricwlwm, cytunodd yr arloeswyr ar y dull 'beth sy'n bwysig'.
- Mae grŵp cynllunio pob Maes Dysgu a Phrofiad wedi dechrau ar eu gwaith datblygu drwy nodi beth sy'n bwysig yn eu maes h.y. amlinellu beth yw'r dysgu hanfodol ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad y dylai unigolyn ei dderbyn ystod ei daith ar hyd y continwmm ac er mwyn cyflawni pedwar diben y cwricwlwm.
- Y dull beth sy'n bwysig yw asgwrn cefn cwricwlwm eang a chytbwys sy'n ysbrydoli disgyblion i ddysgu, yn rhoi profiadau dysgu cyffrous iddynt ac yn galluogi cynnydd drwy eu taith addysgol mewn ffordd sy'n berthnasol iddyn nhw.
- Mae pob Maes Dysgu a Phrofiad yn cynnwys cyfres o ddatganiadau Beth sy'n Bwysig. Mae pob datganiad yn cael ei gefnogi ymhellach gan:
  - Sail resymegol
  - Egwyddorion lefel uchel am y wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau sy'n hanfodol i gyflawni'r datganiad Beth sy'n Bwysig
  - Datganiadau Deilliannau Canlyniad Bras ar gyfer pob Cam Cynnydd i gefnogi cynllunio'r cwricwlwm ar lefel leol. Mae Camau Cynnydd yn

ymwneud yn fras â disgwyliadau ar gyfer dysgwyr 5, 8, 11, 14 ac 16 oed.

### **Addysg Grefyddol a'r cwricwlwm newydd**

- Mae Argymhelliad 9 o *Dyfodol Llwyddiannus* yn datgan y dylai Addysg Grefyddol fod yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau ac y dylai barhau i fod yn ofyniad statudol o'r cyfnod derbyn.
- Rydym yn ystyried bod ysgolion a gynorthwyr yn wirfoddol sydd o natur grefyddol yn darparu eu maes llafur Addysg Grefyddol enwadol eu hunain ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Addysg Catholig a'r Eglwys yng Nghymru i sicrhau y gellir creu cysylltiadau gyda Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.
- Rydym hefyd yn gweithio'n agos â chynrychiolwyr y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (SACRE) i gadarnhau'r berthynas rhwng Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau a'r maes llafur y cytunwyd arno ar lefel awdurdodau lleol.
- Drwy weithio gydag amrywiaeth o arbenigwyr, mae grŵp arloeswyr y Dyniaethau wedi datblygu cynigion drafft ar gyfer eu Maes Dysgu a Phrofiad – sy'n cynnwys hanes, daearyddiaeth, busnes ac astudiaethau cymdeithasol ynghyd ag Addysg Grefyddol. Byddem yn falch o rannu'r cynigion hyn gydag aelodau'r grŵp i gael eu hadborth.
- Nod y cyfarfod yw rhannu cynigion diweddaraf grŵp y Dyniaethau gyda chi, amlinellu lle Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm newydd a gofyn am adborth a thrafodaeth. Bydd eich sylwadau'n cael eu cyflwyno i grŵp arloesi y Dyniaethau ac Is-adran Cwricwlwm ac Asesu ehangach Llywodraeth Cymru.

### **Camau nesaf y broses**

Bydd Papur Gwyn yn cael ei gyhoeddi ddiwedd mis Ionawr 2019 ac ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar gynnwys arfaethedig y Bil Cwricwlwm ac Asesu.

- Bydd cwricwlwm drafft yn cael ei ddarparu ym mis Ebrill 2019 a byddwn yn gofyn am adborth ar y gwaith a gwblhawyd hyd yn hyn ar y chwe Maes Dysgu a Phrofiad.
- Bydd y cwricwlwm a'r trefniadau asesu terfynol yn cael eu cyflwyno ym mis Ionawr 2020.
- Bydd pob grŵp blwyddyn o ysgol gynradd i Flwyddyn 7 yn dechrau cael eu haddysgu o fis Medi 2022 gyda'r cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno fesul blwyddyn o'r pwynt hwn.

## **Eitem 2 – Digwyddiad Wythnos Rhyng-ffydd: 'Cyd-gerdded gyda'n cymuned' Andrea Adams**

Mae Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip wedi ymrwmo i ddarparu cyllid ar gyfer digwyddiad rhyng-ffydd 'Cyd-gerdded gyda'n cymuned'. Dyma'r tro cyntaf i Lywodraeth Cymru gynnal digwyddiad o'r fath yn ystod Wythnos Rhyng-ffydd.

Mae'r digwyddiad wedi'i drefnu ar y cyd gan y Cyngor Rhyng-ffydd a Llywodraeth Cymru. Bydd Arweinydd y Tŷ yn lansio'r digwyddiad yn Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd ar 13 Tachwedd a bydd yn parhau gyda thaith gerdded drwy Gaerdydd.

Bydd y daith yn ymweld â phob un o'r canlynol: Synagog Unedig Caerdydd, Canolfan Bwdhaidd Cathays; Capel y Crwys; a Mosg Dar Ul-Isra Mosque yn Cathays.

Bydd datganiad i'r wasg a negeseuon trydar yn cael eu cyhoeddi ar y diwrnod i hyrwyddo cydweithio pellach rhwng y Cyngor Rhyng-ffydd, y Fforwm Cymunedau Ffydd a Llywodraeth Cymru.

### **Eitem 3 – Hawliau Dynol yng Nghymru Dr Simon Hoffman, Prifysgol Abertawe**

Ymunodd Dr Simon Hoffman â'r cyfarfod i egluro ei waith yn hyrwyddo hawliau dynol yng Nghymru.

Mae Dr Hoffman wedi gweithredu fel tyst arbenigol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac wedi gweithio ar y cyd gyda Grŵp Monitro Cymru ar CCUHP a Chomisiynydd Plant Cymru ar hawliau plant. Mae'n aelod o Grŵp Cyngori Hawliau Plant Llywodraeth Cymru ac yn cadeirio Grŵp Rhanddeiliaid Hawliau Dynol Cymru, sy'n gonsortiw trydydd sector anffurfiol.

Gofynnodd Dr Hoffman i'r Fforwm ystyried beth mwy y gellir ei wneud yng Nghymru. Mewn ymateb, cyflwynodd y Fforwm y sylwadau canlynol:

- Anogwyd Gweinidogion i roi mwy o sylw i hawliau plant.
- Mae rhywfaint o rethreg eithafol yn tanseilio hawliau pobl.
- Mae yna waith da yn cael ei wneud a sylw'n cael ei roi i hawliau pobl yng Nghymru. Er enghraifft, mae Helen Mary Jones AC wedi galw am gynnwys hawliau pobl anabl yng nghyfraith Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu amcanion cydraddoldeb ar gyfer 2016-2020 sy'n adlewyrchu canfyddiadau a blaenoriaethau adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'A yw Cymru'n Decach?'. Maent yn ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus fel tai, iechyd ac addysg; gallu cael gafael ar gyngor; lleihau anghydraddoldebau cyflogaeth, sgiliau a chyflog; lleihau achosion o aflonyddu a cham-drin fel troseddau casineb; cryfhau cydlyniant cymunedol; lleihau tlodi; a datblygu gweithlu amrywiol a chynhwysol, gan osod esiampl ledled Cymru. Mae'r wyth amcan cydraddoldeb hyn yn ymgorffori cydraddoldeb hiliol ledled meysydd polisi fel rhan o strategaeth ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau anghydraddoldeb a threchu tlodi. Ond gellir gwneud llawer mwy.

Gall grwpiau ffydd ychwanegu grym a momentwm ychwanegol i ddiogelu hawliau dynol ac i ymgysylltu â gwaith y Grŵp Rhanddeiliaid Hawliau Dynol. Nid oes gan y Grŵp y cyrhaeddiad eang ar draws y sefydliadau ffydd gwahanol – gallai gweithio'n agosach ar yr agenda hon wella hynny.

Dywedodd Dr Hoffman fod Bwrdd Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru wedi cyfarfod ar 19 Hydref i siarad â swyddogion am waith y mae ef a'r Grŵp Rhanddeiliaid yn ei wneud mewn perthynas â hawliau dynol a chydraddoldeb. Mae'n falch bod y Bwrdd wedi cytuno i gadw hawliau dynol fel eitem sefydlog ar ei agendâu.

Soniodd Dr Hoffman am y ddarlith a fyddai'n cael ei chynnal gan y Cwnsler Cyffredinol ym Mhrifysgol Abertawe ar 15 Tachwedd ar y pwnc "A Human Rights Act for Wales?" Gwahoddodd aelodau'r Fforwm i fynychu'r ddarlith.

#### **Codwyd y materion canlynol yn ystod y drafodaeth:**

- Mae Cyngor Abertawe wedi ymgorffori egwyddorion y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn eu harferion gweithio
- Roedd adroddiad y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig yn adrodd am gynnydd sydyn mewn troseddau casineb yn erbyn plant Mwslimaidd yn y DU.
- Nid yw deddfwriaeth yn effeithio ar gydwybod pobl bob amser – mae deddfwriaeth yn gosod marc ond mae angen gwneud newidiadau i'n diwylliant hirdymor ac mae addysg yn allweddol yn hyn o beth.
- Mae sefydliadau ffydd am weithio'n agosach gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Hawliau Dynol.
- Gwahoddodd y Cyngor Rhyng-ffydd Dr Hoffman i fynychu ei gyfarfod nesaf er mwyn parhau â thrafodaethau ar gydweithio'n agosach.

#### **Eitem 4 – Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches Paul Dear, Pennaeth Tîm Cydraddoldeb**

Dywedodd Paul fod Llywodraeth Cymru am barhau i weithio'n agosach gyda chymunedau ffydd, i ddathlu beth sy'n cael ei wneud eisoes yn ein cymunedau i gynorthwyo ffoaduriaid a cheiswyr lloches ac i ddod o hyd i ffyrdd o gydweithio i atal digartrefedd ymysg ffoaduriaid sydd newydd eu cydnabod.

Nid yw mudo yn fater datganoledig; y Swyddfa Gartref sy'n gyfrifol amdano. Ar hyn o bryd, mae rheolau'r Swyddfa Gartref yn nodi bod rhaid i ffoaduriaid newydd eu cydnabod ddod o hyd i le i fyw mewn 28 diwrnod yn unig. Mae hyn yn achosi llawer o bryder a chaledi i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, sydd wedi dewis setlo a byw yng Nghymru.

Dros yr haf bu Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar y Cynllun Cenedl Noddfa newydd. Derbyniwyd llawer o ymatebion i'r ymgynghoriad, y rhan fwyaf ohonynt yn gefnogol. Bydd y cynllun terfynol yn cael ei gyhoeddi'n fuan. Cyfeiriodd Paul at dri mater y gallai cymunedau ffydd gyfrannu atynt:

- 1) Llety
- 2) Amddifadedd
- 3) Meithrin cysylltiadau cymunedol da

Mae gan rai sefydliadau ffydd eiddo gwag ac mae swyddogion yn awyddus i ystyried sut y gellid defnyddio'r rhain i roi cartref i ffoaduriaid, fel mesur argyfwng, er mwyn lleihau'r pwysau arnynt i ddod o hyd i le i fyw o fewn 28 diwrnod. Byddai Llywodraeth Cymru'n croesawu sgwrs bellach â sefydliadau ffydd i weld sut gallant helpu gyda'r mater hwn.

#### **Codwyd y materion canlynol yn ystod y drafodaeth:**

- Mae'r rheol 28 diwrnod yn her anferth gyda risgiau sylweddol o wynebu amddifadedd.

- Mae cymunedau ffydd yn gweithio gyda grwpiau cymdeithas sifil.
- Mae'n rhaid i'r pedair gwlad siarad a chydweithio â'i gilydd yn barhaus – ac mae angen herio'r Swyddfa Gartref yn gadarn ynghylch materion allweddol.
- Mae angen cyllid ychwanegol ar Gymru i ymdrin â'r materion hyn.

## **Eitem 5 – Prosiectau Cronfa Bontio'r Undeb Ewropeaidd Emma Small, Uwch Reolwr Cydlyniant Cymunedol**

Eglurodd Emma fod Llywodraeth Cymru'n darparu cymorth ariannol uniongyrchol i sectorau ledled Cymru i baratoi ar gyfer Brexit. Mae hyn yn cynnwys Cronfa Bontio'r UE newydd o £50 miliwn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr. Mae'r gronfa newydd hon yn rhan o gynlluniau Brexit Llywodraeth Cymru i helpu busnesau a gwasanaethau cyhoeddus yn uniongyrchol ar gyfer y newidiadau sylweddol a ddaw.

Rhoddodd Emma'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm am dair thema allweddol Prosiectau'r Gronfa Bontio sy'n ymwneud â chydlyniant cymunedol a hawliau dynol. Y rhain yw:

- Cryfhau Cydlyniant Cymunedol
- Hawliau Dinasyddion yr UE yng Nghymru
- Grymuso cymunedau yng nghyd-destun Brexit

### Cryfhau Cydlyniant Cymunedol

Mae gadael yr UE yn debygol o arwain at fwy o densiwn mewn cymunedau. Byddai'n well cael camau ataliol i nodi problemau posibl, lleihau tensiwn lleol drwy ymgysylltu a rhoi sicrwydd, a hwyluso cydweithrediad â gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig pan fo digwyddiadau'n codi.

Mae Cynllun a Rhaglen Cydlyniant Cymunedol cyfredol Llywodraeth Cymru yn fodel hyblyg sydd wedi hen ennill ei blwyf ac wedi profi ei fod yn gallu lliniaru tensiynau cymunedol a darparu cysylltiad rhwng gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau. Mae Llywodraeth Cymru'n ariannu wyth Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol. Mae grwpiau lleol, darparwyr gwasanaethau cyhoeddus a chenedlaethol, yn cynnwys asiantaethau llywodraeth y DU sy'n gweithio yng Nghymru yn ymddiried yn y cydgysylltwyr hyn ac yn eu parchu. Fodd bynnag, mae'r tîm yn fach ac nid oes ganddo'r capasiti i fynd i'r afael â'r cynnydd a ragwelir mewn tensiwn cymunedol.

Y cynnig yw adeiladu ar y model cyfredol a defnyddio arbenigedd a chysylltiadau cyfredol. Gwneir hyn drwy ddatblygu timau rhanbarthol bach gan weithio yn ôl yr ôl-troed cyfredol o wyth rhanbarth ledled Cymru.

### Hawliau Dinasyddion yr UE yng Nghymru

Nod y cynnig hwn yw cefnogi'r 80,000 o ddinasyddion yr UE yn fras sy'n byw yng Nghymru i sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar wasanaethau cynghori priodol, yn cael eu gwarchod rhag ecsbloetio ac allgau, a'u hannog i barhau i fyw yng Nghymru a chyflawni eu potensial.

Nododd 'Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl' yr angen i gefnogi ymglyfreitha strategol ac ariannu cyngor ac eiriolaeth ar gyfer safonau llafur gofynnol i ddinasyddion y DU ac AEE sy'n byw yng Nghymru a allai fod mewn perygl o gael eu hecsbloetio. Nod y cynnydd yw cynyddu darpariaeth y gwasanaethau hyn yng Nghymru ac mae'n cyflawni argymhelliad allweddol sy'n codi o Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl.

#### Grymuso cymunedau yng nghyd-destun Brexit

Y bwriad yw ariannu gwaith ymchwil i sut y gallai proses Brexit effeithio ar wasanaethau cymunedol yng Nghymru a helpu'r trydydd sector i gynllunio ar gyfer pob digwyddiad posibl.

Y nod yw gwella ein dealltwriaeth o sut bydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd yn cael effaith ar rymuso cymunedau a'r cyfleoedd ar gyfer hynny – sicrhau bod gwasanaethau anstatudol yn gallu parhau'n ariannol, grymuso'r gweithlu a'r gymuned.

Yr amcan yw helpu grwpiau cymunedol i sicrhau bod unrhyw gynlluniau wrth gefn a pharatoadau yn gymesur, yn ogystal â gweithredu i roi sicrwydd i'r sector ac i gymunedau sy'n elwa ar y gwasanaethau hyn.

#### **Eitem 6 – Unrhyw Fater Arall**

Dyweddodd y Prif Weinidog mai dyma ei gyfarfod olaf gyda'r Fforwm gan ei fod eisoes wedi cyhoeddi ei fwrriad i gamu i lawr fel Prif Weinidog ar ddiwedd y flwyddyn, ac felly byddai'n gorffen fel Cadeirydd y Fforwm. Diolchodd y Prif Weinidog i'r Fforwm am eu gwaith gwerthfawr gyda Llywodraeth Cymru gan ddymuno pob llwyddiant iddynt yn y dyfodol.

Siaradodd Archesgob Cymru ar ran aelodau'r Fforwm i ddymuno'n dda i'r Prif Weinidog i'r dyfodol a diolchodd iddo am ei waith diflino a'r gefnogaeth a ddangosodd i sefydliadau ffydd ledled Cymru dros y 18 mlynedd y bu'n gwasanaethu fel Prif Weinidog Cymru a Chadeirydd y Fforwm Cymunedau Ffydd.

#### **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Bydd aelodau'n cael eu hysbysu am ddyddiad y cyfarfod nesaf yn y flwyddyn newydd.